TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE*

| Ysgol/*School* | Eglwys Bach 2019-20 |
|---|---|
| Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum* | £2262 = 3.6 @ £628.36 |

| | |
|---|---|
| Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions* | Ymateb i'r newidiadau sydd ar y gweill gyda Chwricwlwm 2022 a blaenoriaethau'r ysgol.<br>• Addasu cynlluniau hir dymor i gynnwys y 4 Diben - ehangu ar ddealltwriaeth y disgyblion o Gwricwlwm 2022. (Talu athrawon rhan amser i weithio diwrnod HMS 2 @ £250 = £500)<br>• Cyd-weithio ar Gwricwlwm 2022 gydag ysgolion Eglwys gyfagos ar brosiect 'Cyfieithwyr' - llawn er mwy mynd a Bl 6 (3 @ £250 = £750 a bws i'r Gadeirlan 3 @ £60 = £180)<br>• Arbrofi gyda threfn a dulliau newydd o addysgu – cydweithio gydag ysgolion y dalgylch i rannu arfer dda wrth ddatblygu Cwricwlwm 2022.<br>• Parhau i ddatblygu Meddylfryd Twf - yna ymchwilio mewn i agweddau eraill sydd yn gallu helpu'r plant i oresgyn heriau e.e. 'Mindfulness,' ioga, cerddoriaeth, cadw dyddiadur neu liwio. Defnyddio'r strategaethau, rhannu ein darganfyddiadau gydag ysgolion y clwstwr gan ffocysu ar yr effaith ar ddisgyblion ADY. (Llyfrau perthnasol, hyd at £60 a hanner diwrnod i baratoi a chyflwyno - dau ½ @ £125 = £250.)<br>• Ehangu ar gyfleodd i ddatblygu sgiliau creadigol y disgyblion – Athrawes sydd wedi bod yn rhan o gynllun EDAU i ddarparu sesiynau hyfforddiant i weddill y staff er mwyn rhannu dulliau a syniadau i ddatblygu celf ar lawr y dosbarth. (Dau ½ diwrnod o lanw @ £125 = £250)<br>• £272 wrth gefn tuag at unrhyw hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. |

| | |
|---|---|
| Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes* | Bydd y disgyblion:<br>• Yn datblygu sgiliau er mwyn ymdopi gyda sefyllfaoedd heriol - gwaith anodd, ffrind cas, peidio cael eu dewis i dîm neu weithgaredd.<br>• Yn awyddus i herio eu hunain gan ddeall nid oes rhaid llwyddo y tro cyntaf, mai'r broses o ymdrechu a datrys problemau sydd yn bwysig ac nid yn unig diwedd y dasg.<br>• Datblygu eu sgiliau creadigol ar draws y cwricwlwm a'r gallu i fynegi eu hunain mewn ffyrdd gwahanol, ac nid yn unig drwy ysgrifennu.<br>Bydd y staff yn:<br>• Arbrofi gyda pheadagogiaeth addysgu ac yn dechrau paratoi ar gyfer Cwricwlwm 2022.<br>• Cyd-weithio ysgol i ysgol, ar draws y Sir a gydag ysgolion Cymraeg Eglwysig - er mwyn arbrofi gydag addysgeg ar gyfer Cwricwlwm 2022.<br>• Cyfoethogi eu dealltwriaeth o ddatblygiadau/astudiaethau sydd ymwneud a lles plant.<br>• Sefydlu partneriaethau gydag athrawon mewn ysgolion eraill - datblygu syniadau ar y cyd. |

Gwerthuso/*Evaluation*

| | |
|---|---|
| Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well* | |

| | |
|---|---|
| Yr Effaith a'r Canlyniadau/ *Impact and Outcomes* | |

| | |
|---|---|
| Y Cam Nesaf/*Next stage* | |